WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Amcangyfrif o'r incwm a'r gwariant am y flwyddyn yn dod i ben ar 31 Mawrth 2007

## Cyflwynwyd i Bwyllgor Archwilio Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Adran 93(4) Deddf Llywodraeth Cymru 1998

**Medi 2005**
**878A2005**

# Amcangyfrif o incwm a gwariant Swyddfa Archwilio Cymru am y flwyddyn yn dod i ben ar 31 Mawrth 2007

## Cyflwyniad

1. O dan Adran 93 Deddf Llywodraeth Cymru 1998, mae'n ofynnol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru dalu costau Archwiliwr Cyffredinol Cymru i'r graddau nad yw'n bosibl eu talu o ffynonellau eraill. I gefnogi ceisiadau am adnoddau, mae'n ofynnol i'r Archwiliwr Cyffredinol gyflwyno amcangyfrifon o incwm a gwariant i gael eu hystyried gan Bwyllgor Archwilio'r Cynulliad.

2. Mae'r Archwiliwr Cyffredinol, gyda chefnogaeth Swyddfa Archwilio Cymru:

   2.1. yn archwilio cyfrifon y Cynulliad, y cyrff a noddir ganddo a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig ag ef a phob un o gyrff GIG Cymru. Mae hefyd yn penodi archwilwyr i gyrff llywodraeth leol (gan gynnwys gwasanaethau tân, heddlu, prawf a pharciau cenedlaethol); ac

   2.2. mae ganddo'r pŵer i gynnal archwiliadau o economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd (gwerth am arian) ym mhob rhan o sector cyhoeddus Cymru; ac

   2.3. mae'n ofynnol iddo ymgymryd ag arolygiadau ar y rhan fwyaf o gyrff llywodraeth leol o dan Raglen Cymru ar gyfer Gwella.

3. Wrth iddo ddatblygu ei flaenraglen gwerth am arian (ar gyrff nad ydynt yn rhai llywodraeth leol), mae'n ofynnol i'r Archwiliwr Cyffredinol gymryd i ystyriaeth barn y Pwyllgor Archwilio.

4. Caniateir i'r Archwiliwr Cyffredinol godi ffi am waith archwilio ac arolygu. Mewn blynyddoedd blaenorol, ariannwyd yr archwiliad o gyfrifon a baratowyd gan y Cynulliad drwy grant gan y Cynulliad. Dan ddarpariaethau Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, caiff y gwaith hwn ei ariannu gan ffioedd er mwyn ei gysoni ag archwiliadau o gyfrifon cyrff cyhoeddus eraill. Daw'r newid hwn i rym ar gyfer blwyddyn cyfrifon 2005-06 (a gaiff ei gasglu yn 2006-07). Parheir i ariannu blaenraglen gwerth am arian a gweithgareddau eraill yr Archwiliwr Cyffredinol, gan gynnwys cefnogaeth a ddarperir i'r Pwyllgor Archwilio, drwy grant o'r Cynulliad.

5. Ar 1 Ebrill 2005, cyflwynodd Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 newidiadau mawr i'r drefn archwilio ac arolygu ar gyfer sector cyhoeddus Cymru. Trosglwyddodd i'r Archwiliwr Cyffredinol y swyddogaethau a ymarferwyd gynt gan y Comisiwn Archwilio yng Nghymru mewn perthynas â iechyd a llywodraeth leol. Bu iddo sefydlu Swyddfa Archwilio Cymru, a reolir gan yr Archwiliwr Cyffredinol, drwy drosglwyddo staff y Comisiwn Archwilio a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yng Nghymru i gyflogaeth yr Archwiliwr Cyffredinol. Bu i'r Ddeddf hefyd wella'r drefn archwilio ac arolygu yng Nghymru, trwy:

5.1. wella hawliau mynediad i archwilwyr ddilyn arian cyhoeddus i'w dderbynwyr terfynol; ac

5.2. gosod dyletswyddau i gydweithio a rhannu gwybodaeth gydag arolygiaethau eraill sy'n gweithio yng Nghymru.

6. Disgwylir hefyd y bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn gweithio mewn cydweithrediad ag asiantaethau archwilio eraill y DU - er enghraifft drwy rannu staff a chynhyrchu adroddiadau trawsffiniol.

7. Mae creu corff archwilio ac arolygu unedig ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru yn cynnig cyfle rhagorol i greu sefydliad o safon fyd-eang, yn addas i'r 21ain ganrif ac un sy'n gallu gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i bobl Cymru. Mae gan y corff y pŵer i ddilyn arian cyhoeddus yn fertigol drwy'r gadwyn ariannu er mwyn sicrhau y caiff ei wario'n gywir ac yn gall, yn ogystal â'r gallu i ymgymryd ag astudiaethau o natur drawsbynciol ac adrodd yn gyfannol ar gyflawni gwasanaethau cyhoeddus. Bydd y gwaith a fynnir o'r corff newydd felly'n llawer uwch na'r hyn a gynhyrchir gan y ddau gorff a'i rhagflaenodd yng Nghymru.

8. Ar 30 Medi 2004, cyflwynodd fy rhagflaenydd ei asesiad i'r Pwyllgor o'r ffactorau'n dylanwadu ar greu Swyddfa Archwilio Cymru ynghyd ag amcangyfrifon o incwm a gwariant y corff newydd ar gyfer 2005-06. Nododd nifer o bwyntiau o ansicrwydd oedd yn cyfyngu ar yr asesiad hwnnw i gefnogi cais am adnoddau o £4.2 miliwn yn y flwyddyn ariannol gyfredol.

9. Ers hynny:

9.1. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi dilyn trywydd ei fframwaith polisi a gyflwynir yn Creu'r Cysylltiadau[1] ar gyfer mwyafu buddion ei fuddsoddiad cynyddol mewn gwasanaethau cyhoeddus a chynhyrchu arbedion effeithlonrwydd drwy arbedion maint sy'n deillio o gydweithrediad a chydweithio mwy effeithiol; ac

9.2. mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi'r Papur Gwyn "Trefn Lywodraethu Well i Gymru" sy'n rhagweld newidiadau sylweddol i gyfansoddiad y Cynulliad a chreu Gweithrediaeth sydd yn gyfreithlon ar wahân.

[1] Creu'r Cysylltiadau: Cyflawni Gwell Gwasanaethau i Gymru

10. Mae'r datblygiadau hyn yn effeithio'n uniongyrchol ar y ffordd y bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnal ei fusnes. Maent hefyd yn effeithio ar y rhyngwyneb rhwng ein cyrff a archwilir ac a arolygir sydd wrthi eu hunain yn gweithio tuag at ddatblygu dulliau newydd o gyflawni gwasanaeth sy'n cynhyrchu'r arbedion effeithlonrwydd o £600 miliwn a gyflwynir yn Creu'r Cysylltiadau.

11. Mae gweddill y ddogfen hon yn rhoi'r newyddion diweddaraf ar sefydlu Swyddfa Archwilio Cymru i'r Pwyllgor ac yn cyflwyno f'amcangyfrifon ar ei incwm a'i wariant am 2006/07. Datryswyd rhai o'r materion o ansicrwydd a nodwyd y llynedd ond, gan nad ydym ond chwe mis i mewn i'r flwyddyn weithredol gyntaf, mae nifer ohonynt yn parhau. Dylid darllen y papur amcangyfrif hwn ar y cyd â'm blaenraglen waith arfaethedig a gyflwynir ar wahân.

## Ffactorau'n effeithio ar greu Swyddfa Archwilio Cymru

12. Nod Swyddfa Archwilio Cymru yw gwneud i arian cyhoeddus gyfrif drwy hyrwyddo gwelliant, fel bod pobl Cymru'n elwa ar wasanaethau atebol, wedi'u rheoli'n dda sy'n cynnig y gwerth gorau posibl am arian. Mae ein gweithgareddau ni hefyd yn cael eu craffu'n annibynnol er mwyn sicrhau ein body n cyflawni gwerth am arian.

13. Cyflwynodd amcangyfrif y llynedd y materion hollbwysig y disgwylir iddynt effeithio costau'r corff newydd. Mae'r adran hon yn cyflwyno darlun diweddaraf y sefyllfa mewn perthynas â'r pwysau costau ac yn amlygu meysydd o ansicrwydd parhaus.

### Telerau ac amodau

14. Ar 1 Ebrill 2005, trosglwyddwyd staff y Comisiwn Archwilio a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yng Nghymru i gyflogaeth yr Archwiliwr Cyffredinol gyda pharhad yn eu cyflogaeth. Mae'n rhwymedigaeth statudol ar yr Archwiliwr Cyffredinol i gyflogi'r staff yma ar delerau ac amodau nad ydynt, yn eu crynswth, yn llai ffafriol na'r rhai oedd mewn grym yn syth cyn iddynt gael eu trosglwyddo. Yr oedd nifer o wahaniaethau mawr rhwng y telerau ac amodau a etifeddwyd oddi wrth y ddau gorff rhagflaenol. Mae 27 o wahanol raddfeydd mewn grym o hyd ar gyfer 240 o staff.

15. Y mae'n amlwg fod angen rhesymoli'r sefyllfa hon ac mae'n gyfle hefyd i wella effeithlonrwydd y sefyldiad newydd wedi cyfuno'r ddau gorff rhagflaenol. Nid oedd yr amcangyfrif am 2005/06 yn gwneud unrhyw ddarpariaeth benodol ar gyfer costau net ychwanegol yn deillio o newidiadau trefniadol a strwythurol wrth i'r corff newydd fwrw gwreiddiau.

16. Yn ystod saith mis cyntaf bodolaeth Swyddfa Archwilio Cymru rwyf wedi rhoi blaenoriaeth uchel i barhad gwasanaeth tra fy mod i'n datblygu strategaeth y gellir defnyddio i ffurfio strwythur trefniadol ar gyfer y Swyddfa. O fewn y cyd-destun hwn o ffurf yn dilyn swyddogaeth, rwyf wedi cyflogi ffyrm broffesiynol o ymgynghorwyr AD i archwilio'r opsiynau a'r costau amcangyfrifol o gysoni telerau ac amodau. Ar ôl gorffen y gwaith hwn a'r ymgynghoriad dilynol, byddaf yn gallu rhoi barn ar y ffordd

mlaen, gan gynnwys y posibilrwydd o wneud arbedion effeithlonrwydd a'r goblygiadau ariannol manwl i 2006/7 a thu hwnt.

17. Yn unol â'm ffocws ar effeithlonrwydd mewnol, rwyf wedi tybio y caiff unrhyw gostau cysoni eu cynnwys o fewn codiad yng nghyfanswm costau cyflogres o 1.5% sydd dipyn yn is na'r amcangyfrif chwyddiant ar gyfer y gyllideb hon.

### Cyfleusterau

18. Gwnaeth y Gorchmynion Trosglwyddo ddarpariaeth ar gyfer trosglwyddo'r prydlesi adeiladau yr oedd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a'r Comisiwn Archwilio i'r Archwiliwr Cyffredinol ynghyd ag ymrwymiadau cytundebol cysylltiedig (e.e. trefniadau rheoli cyfleusterau). Gydag amser, wrth i brydlesi presennol ddod i ben, dylai fod yn bosibl rhesymoli adeiladau Swyddfa Archwilio Cymru ac, wrth wneud hyn, achosi arbedion effeithlonrwydd. Rwyf eisoes wedi achub y cyfle i roi staff o'r ddau gorff rhagflaenol sy'n gweithio yn fras mewn meysydd tebyg o weithgaredd yn yr un adeiladau, gan fwyafu'r effeithlonrwydd sy'n deillio o gysylltiadau mwy effeithiol.

### Gwasanaethau corfforaethol

19. Dibynnai'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol a'r Comisiwn Archwilio yng Nghymru yn fawr ar eu prif swyddfeydd am wasanaethau canolog ac rydym wedi rhoi trefniadau newydd ar waith i sicrhau'r seilwaith angenrheidiol i'r corff newydd. Rwyf yn fodlon mai'r trefniadau canlynol yw'r rhai mwyaf effeithlon ac effeithiol wrth ddarparu cefnogaeth gorfforaethol briodol

   19.1. mae trefniadau wedi sefydlu gyda'r Comisiwn Archwilio i ddarparu system AD dros dro a gwasanaeth cyflogres am o leiaf dwy flynedd;

   19.2. gosodwyd system rheoli ariannol newydd ac mae'r seilwaith mewn lle i gefnogi'r gofynion gweithredol newydd;

   19.3. mae rhwydwaith TGCh Swyddfa Archwilio Cymru hefyd wedi'i sefydlu ac rydym yn prynu gwasanaethau cymorth TGCh wrth un cyflenwr. Rwyf wedi cadw tîm TG mewnol bach i arwain a rheoli'r strategaeth yn ogystal â rheoli a monitro'r contract gyda'r cyflenwr;

   19.4. mae trefniadau ar gyfer cefnogaeth dechnegol wedi eu sefydlu. Mae'r rhain yn cynnwys gosod fframweithiau am ffioedd archwilio, penodi archwilwyr, rheoli cyflenwyr, trefniadau ardystio grantiau, rheoli ansawdd a thrafod gohebiaeth.

## Effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd

20. Yn gyson ag arfer rheoli cadarn, yr agweddau a sefydlwyd yn Creu'r Cysylltiadau, a'r hyn y gellir yn rhesymol ei ddisgwyl oddi wrthym, y mae Swyddfa Archwilio Cymru yn ymroddedig i sicrhau bod ei weithgareddau'n cynrychioli gwerth am arian. Rwyf eisoes wedi rhoi trefniadau ar waith er mwyn symleiddio'r strwythur rheoli uwch, ac er fod hyn wedi costu ar y cychwyn, mae'r newidiadau eisioes wedi arwain at arbedion sylweddol. Gadawodd fy nghyn-ddirprwy'r corff ym mis Mai, ni

phenodwyd olynydd, ac rwyf wrthi'n rhoi gwedd derfynol ar strwythurau tymor hir yr uwch dîm rheoli ac ar draws y corff yn ei gyfanrwydd.

21. Rydym yn mynd ati i geisio arbedion effeithlonrwydd eraill yn y blynyddoedd cynnar - er enghraifft, drwy wella dulliau gweithio, o bosibl drwy resymoli cyflenwadau a gwasanaethau yn ogystal ag adeiladau (paragraff 18) - ac i gyflawni gwell gwerth am arian drwy gydweithredu a chydweithio'n effeithiol.

### Costau trosiannol

22. Manylwyd ar y costau cyfalaf a refeniw untro o sefydlu Swyddfa Archwilio Cymru (e.e. rhwydwaith TG a thelathrebu, caledwedd, meddalwedd a rheoli prosiectau) a ddisgwylid eu cael yn 2004-05 a 2005-06 yn y gyllideb sefydlu a gafodd ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio ar 6 Mai 2004. Mae trefniadau ariannol arbennig mewn grym i neilltuo'r costau hyn ar gyfer sefydlu Swyddfa Archwilio Cymru a chaiff yr alldro terfynol ei adrodd yng nghyfrifon 2005-06.

## Materion ariannol eraill sy'n effeithio ar gyllideb Swyddfa Archwilio Cymru

### Gwaith archwilio ychwanegol

#### *Ailstrwythuro*

23. Ym mis Gorffennaf 2004, cyhoeddodd Prif Weinidog Cymru ailstrwythuro radical fydd yn golygu cynnwys Awdurdod Datblygu Cymru, Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant (ELWa) a Bwrdd Croeso Cymru yn Llywodraeth Cynulliad Cymru o 1 Ebrill 2006. Mae'r tri chorff hyn yn cyflogi rhyw 1,600 o staff ac mae ganddynt wariant gros blynyddol sy'n fwy na £900 miliwn.

24. Ym mis Tachwedd 2004, cyhoeddodd Prif Weinidog Cymru newidiadau pellach, gan ailddiffinio perthynas Llywodraeth y Cynulliad â rhai o'r cyrff a noddir ganddo ond hefyd yn cyfuno Bwrdd yr Iaith Gymraeg a'r Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru (ACCAC) â Llywodraeth Cynulliad Cymru.

25. Bydd y cynigion a gyflwynir yn y Papur Gwyn "Trefn Lywodraethu Well i Gymru" yn creu llywodraeth weithredol i Gymru sy'n atebol i'r Cynulliad ond ar wahân iddo'n gyfreithlon. Bydd y gwahaniaethu rhwng canghennau gweithredol a deddfwriaethol/craffu'r Cynulliad yn darparu sylfaen gref ar gyfer mwy o graffu effeithiol o'r weithrediaeth ond yn y tymor byr bydd yn ailstrwythuro sylweddol gyda nifer o risgiau y bydd rhaid angen eu rheoli'n gywir.

26. Fel gyda achosion ailstrwythuro blaenorol, mae staff archwilio'n gweithio'n agos gyda rheolwyr y cyrff dan sylw, gan ddarparu'r cyfryw gyngor y gellir ei roi'n briodol wrth gadw annibyniaeth ddyladwy. Fodd bynnag, mae ein profiad archwilio blaenorol, er enghraifft, gydag ad-drefnu llywodraeth leol yn 1996, creu ELWa yn 2001 a disodli'r awdurdodau iechyd gan y byrddau iechyd lleol yn 2003 - yw dangos fod unrhyw ailstrwythuro sylweddol o fecanwaith y llywodraeth yn arwain at risgiau sylweddol a chynyddol i reolaeth ariannol barhaol y cyrff dan sylw ac i barhad cyflawni gwasanaeth cyhoeddus. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cymryd hyn i ystyriaeth yn 2005-06 a bydd yn parhau i wneud hyn wrth i'r cyfuniadau fynd yn eu blaen. Yn gyson gydag ad-drefniadau blaenorol, rwyf yn bwriadu cyhoeddi adroddiad ar gyfrifon terfynol pob un o'r cyrff a gyfunir.

27. Nid yw'r ffaith syml bod swyddogaethau a ymarferir ar hyn o bryd gan gyrff a noddir gan y Cynulliad yn cael eu cyfuno â Llywodraeth Cynulliad Cymru ynddo ei hun yn lleihau'r angen i'r gwasanaethau cyhoeddus hynny fod yn destun gwaith craffu archwilio. Ond ar wahân i'r broses cyfuno, sydd mewn gwirionedd yn cynyddu'r angen am graffu, mae gan y cyfuno botensial i leihau craffu archwilio. Rwyf wedi sefydlu mesurau i sicrhau y cymhwysir y lefel gywir o graffu archwilio yn y meysydd hynny yn ystod ac ar ôl y proses cyfuno.

28. Yn ei ddatganiad ym mis Tachwedd, gwahoddodd y Prif Weinidog gynigion ar gyfer integreiddio Ymddiriedolaethau GIG a Byrddau Iechyd Lleol sy'n cyd-ffinio a lle bydd integreiddio o fudd i gleifion. Nid wyf yn disgwyl i unrhyw newidiadau o'r fath gael eu gweithredu tan flwyddyn ariannol 2007/08, ac nid wyf felly wedi gwneud unrhyw addasiadau i amcangyfrifon 2006/07.

### *Adolygiad 2004 o Wariant*

29. O dan delerau'r adolygiad, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf y llynedd, bydd Cymru'n derbyn £900 miliwn yn ychwanegol yn 2006/07, yn dod a'r cyfanswm a gyllidir gan y Trysorlys i dros £13 biliwn. Cynllunnir cynnydd tebyg ar gyfer 2007-08. Gall y gwariant ychwanegol – ac unrhyw gynnydd mewn incwm i gyrff cyhoeddus Cymru, os bydd ganddynt risg ychwanegol, arwain at gostau ychwanegol o gymharu â'r rhai a gafwyd mewn blynyddoedd blaenorol.

### *Trefn lywodraethu gorfforaethol gryfach*

30. Mae nifer o fethiannau proffil uchel, fel yn achos Enron, wedi arwain at ymwybyddiaeth o'r newydd o bwysigrwydd trefniadau llywodraethu o fewn cyrff. Er enghraifft, ym mis Gorffennaf 2003, cyhoeddodd y *Financial Reporting Council* God Cyfun ar Drefn Lywodraethu Corfforaethol ddiwygiedig, yn adlewyrchu canfyddiadau adroddiadau cynharach, fel yr un gan Syr Derek Higgs. Ceir llawer yn yr adroddiadau hyn sy'n gyffredin i gyrff sector cyhoeddus ac rwy'n ymroddedig I gymhwyso'r safonau uchaf o archwilio ac i helpu cyrff a archwilir i gyrraedd y safonau uchaf o adrodd ariannol ac o drefn lywodraethu gorfforaethol.

31. Er enghraifft, mae archwilwyr yn ymwneud yn fwyfwy â sicrhau bod pwyllgorau archwilio ac aelodau anweithredol cyrff mor effeithiol ag sy'n bosibl.  Mae hyn yn arwain at waith ychwanegol, megis hyfforddiant, yn ogystal â rhagor o weithgaredd archwilio er mwyn darparu'r sicrwydd angenrheidiol mewn perthynas â threfn lywodraethu gorfforaethol.

### *Goblygiadau*

32. Disgwylir y bydd y tair agwedd hyn ar waith ychwanegol a newidiadau eraill - fel ymestyn holl gyfrifon y llywodraeth i gynnwys y sector cyhoeddus ehangach (gan gynnwys llywodraeth leol ac ymddiriedolaethau GIG) a'r angen i gydymffurfio â'r safonau cyfrifo ac archwilio rhyngwladol yn arwain at gostau archwilio uwch yn 2005-06 o tua £300,000 a gaiff ei ailgodi ar draws y gwahanol benawdau cyhoeddus (Tabl 2, tudalen 11).  Rwyf wedi cymryd y bydd y gost yn 2006/07 ar yr un lefel.  Byddai'r costau ychwanegol hyn wedi codi hyd yn oed pe na fyddai Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 wedi cael ei phasio ac ni wnaed unrhyw newidiadau i'r fframwaith archwilio ac arolygu presennol.

### *Costau pensiwn staff*

33. Nid yw staff Swyddfa Archwilio Cymru yn weision sifil ond, fel yn achos nifer o gyrff sector cyhoeddus eraill nad yw'r staff yn weision sifil, y maent yn gymwys i aelodaeth ym Mhrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS).  Cynyddodd rheolwyr y Cynllun – ar sail gynyddol – y cyfraniadau sy'n daladwy gan bob cyflogwr o staff PCSPS o 1 Ebrill 2005.  Bydd hyn yn arwain at gynnydd yn y gofyn o £75,000 yn 2006/07. Nid wyf wedi cynnwys darpariaeth ar gyfer costau untro a allai ddilyn trosglwyddo staff o gynllun pensiwn y Comisiwn Archwilio i PCSPS, gan nad yw'r broses gwerthuso wedi ei gwblhau.

### *Treth Ar Werth*

34. Yn ei gyflwyniad i'r Pwyllgor y llynedd, dywedodd fy rhagflaenydd nad oedd Cyllid a Thollau EM wedi penderfynu eto ar arfer y Comisiwn Archwilio o ychwanegu TAW i'w ffioedd archwilio ac arolygu a godwyd ar gyrff llywodraeth leol a GIG, a gwneud iawn am hyn yn erbyn TAW sy'n daladwy ar gyflenwadau a gwasanaethau.

35. Fel mesur dros dro, mae Cyllid a Thollau EM wedi cytuno y gall y trefniadau presennol barhau nes iddynt gael eu hadolygu. Ar gyfer adroddiad amcangyfrifol 2006-07, rwyf yn ei chymryd yn ganiataol y bydd y trefniadau presennol yn parhau yn ddigyfnewid ac nid wyf wedi cynnwys unrhyw ddarpariaeth ar gyfer rhagor o TAW na ellir ei adennill.

## Sut yr ariennir gwaith Swyddfa Archwilio Cymru

36. Bydd Swyddfa Archwilio Cymru'n ymgymryd ag ystod eang iawn o waith archwilio ac arolygu ar gyrff sector cyhoeddus Cymru.  Cyflwynir y prif elfennau, ynghyd â ffynonellau cyllid gwaith 2006-07, yn Nhabl 1.

**Tabl 1: Prif weithgareddau Swyddfa Archwilio Cymru ar ffynonellau cyllido**

| Gweithgaredd | Graddfa | Sut y'i hariennir |
|---|---|---|
| Gwerth am arian/gwaith archwilio perfformiad ar y Cynulliad, y cyrff a noddir ganddo a chyrff cyhoeddus cysylltiedig, GIG Cymru a'r sectorau addysg bellach ac uwch. | Cyfanswm y gwariant yn amodol ar archwiliad gwerth am arian/perfformiad dros £13 biliwn. | Grant gan y Cynulliad. |
| Archwiliad o gyfrifon a baratowyd gan y Cynulliad, y cyrff a noddir ganddo a chyrff cyhoeddus cysylltiedig, byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau GIG. | 9 o gyfrifon a baratoir gan y Cynulliad.<br>Dros 60 o gyfrifon. | Codir ffioedd ar gyrff a archwilir. |
| Gwaith archwilio ac arolygu ariannol, gwerth am arian/perfformiad (Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella) ar gyrff llywodraeth leol. | 22 awdurdod unedol; 4 corff heddlu; 3 corff tân a 4 corff prawf.<br>Gwariant, wedi'i gyfuno, o dros £6 biliwn. | Codir ffioedd ar gyrff a archwilir ac a arolygir. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n rhannol ariannu gwaith Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella. |
| Gwaith ardystio grantiau a gwaith arall a wneir drwy gytundeb. | Gwneir gwaith mewn 22 awdurdod unedol ac mewn sawl corff a noddir gan y Cynulliad. | Fe'i hariennir yn llwyr drwy ffioedd. |
| Gwaith arall, fel cefnogaeth i waith y Pwyllgor Archwilio a delio gyda gohebiaeth. | Briffio'r Pwyllgor cyn ei 9-10 o gyfarfodydd blynyddol; gan roi cyngor ar ei adroddiadau drafft, atebion y Llywodraeth a materion ad hoc eraill. | Grant gan y Cynulliad. |

*Noder: Gall gwaith o natur drawsbynciol, fel astudiaeth yn cynnwys Llywodraeth Cynulliad Cymru a llywodraeth leol, ddod o dan fwy nag un o'r gweithgareddau uchod ac felly fe'i hariennir gan grant gan y Cynulliad a ffioedd yn ôl cyfrannau priodol.*

37. Ariennir y rhan fwyaf o'r gwaith a wneir gan Swyddfa Archwilio Cymru neu gan ffyrmiau a benodir neu o dan gontract gan ffioedd a godir drwy ffioedd ar gyrff a arolygir.  Fel arfer gosodir y ffioedd hyn fel y byddant yn talu holl gost y gwaith a wneir.

## Dadansoddiad o incwm a gwariant amcangyfrif am 2006-07

38. Mae Tabl 2 yn darparu rhagolwg o incwm a gwariant Swyddfa Archwilio Cymru am 2006-07 o gymharu â'r ffigurau amcangyfrif am 2005/06, gan gynnwys dadansoddiad o'r prif feysydd gwariant. Er gwaethaf y pwysau o ran costau a nodir uchod, rwyf wedi llwyddo i leihau cyfanswm y gwariant rhagamcanedig gan £500,000.

**Tabl 2: Rhagolwg o wariant ac incwm Swyddfa Archwilio Cymru am 2006-07**

| | **2005-06** | | **2006-07** | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** | **Nodyn** |
| **Incwm** | | | | | |
| Archwilio ac arolygu cyrff llywodraeth leol | | 7.6 | | 8.0 | i |
| Grant Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella | | 1.5 | | 1.5 | ii |
| Ardystio hawliadau grantiau | | 1.3 | | 1.6 | iii |
| Archwiliad o'r Cynulliad, y cyrff a noddir ganddo a chyrff cyhoeddus cysylltiedig | | 0.6 | | 0.9 | iv |
| Archwiliad o gyrff GIG Cymru | | 4.9 | | 4.6 | v |
| Arall | | 1.1 | | 0.3 | vi |
| **Cyfanswm yr incwm** | | **17.0** | | **16.9** | |
| **Gwariant** | | | | | |
| Costau staff a chostau cysylltiedig | | 12.8 | | 13.2 | vii |
| Ffioedd yn daladwy i archwilwyr, contractwyr ac ymgynghorwyr penodedig | | 4.1 | | 4.2 | viii |
| Costau adeiladau a chostau cysylltiedig | 0.9 | | 0.9 | | ix |
| Cyflenwadau a gwasanaethau | 1.0 | | 1.0 | | x |
| Gwasanaethau corfforaethol | 2.2 | | 1.2 | | xi |
| Taliadau cyfalaf (nad ydynt yn rhai arian parod) | 0.2 | | 0.2 | | xii |
| Is-gyfanswm | | 4.3 | | 3.3 | |
| **Cyfanswm y gwariant refeniw** | | **21.2** | | **20.7** | xiii |
| **Cais net am adnoddau** | | **4.2** | | **3.8** | xiv |

*Nodiadau*

i. Mae ffioedd archwilio ac arolygu wedi cynyddu gan £400,000 sy'n adlewyrchu gwaith craffu ychwanegol a rhagor o waith craffu.

ii. Mae grant Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella wedi aros yn gyson o flwyddyn i flwyddyn. Wedi ystyried chwyddiant fodd bynnag, y mae wedi gostwng.

iii. Mae incwm ffioedd hawliadau grantiau wedi cynyddu o £300,000. Mae hyn yn cynnwys cynnydd yn hawliadau grantiau Undeb Ewropeaidd ASPB o tua £100,000, a chwyddiant.

iv. Disgwylid y bydd cyfuno nifer o'r cyrff a noddir gyda Llywodraeth y Cynulliad o 2006-07 yn arwain at arbedion maint ond ni fydd o reidrwydd yn lleihau lefel y gwaith craffu archwilio sydd ei angen. Mae'r archwiliad ariannol bellach yn cael ei ariannu drwy ffi yn hytrach na thrwy grant sy'n dod i £200,000.

v. Mae archwiliadau o gyrff GIG Cymru wedi gostwng gan £300,000 sy'n adlewyrchu ail-gysoni rhaglenni gwaith ar gyfer 2006/07.

vi. NGostyngwyd incwm arall o £0.8 miliwn oherwydd ni chafwyd gwaith prosiect a ddisgwylir ei gomisiynu.
vii. Trosglwyddwyd staff i Swyddfa Archwilio Cymru o’r ddau gorff rhagflaenol ar delerau ac amodau gwarchodedig. Mae gwaith ar y gweill i safoni’r rhain a sicrhau bod y strwythur trefniadol yn datblygu mewn ffordd sy'n parhau i gyflawni gwasanaeth effeithiol ac effeithlon. Mae costau staff wedi cynyddu gan £400,000 ond pan gynhwysir costau pensiwn ychwanegol o £70,000 ceir cynnydd o dan chwyddiant o £330,000.
viii. Mae'r ffioedd sy’n daladwy i archwilwyr a chontractwyr penodedig wedi cynyddu gan £100,000 ond, pan gymerir chwyddiant i ystyriaeth, mae’n aros yn fras yr un peth â’r llynedd.
ix. Mae costau adeiladau a chostau cysylltiedig eraill yn aros yr un peth ag yn 2005/06. Trosglwyddwyd y prydlesi ar adeiladau a ddefnyddiwyd gynt gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a'r Comisiwn Archwilio yng Nghymru i’r Archwiliwr Cyffredinol.
x. Mae costau cyflenwadau a gwasanaeth yn aros yr un peth ag yn 2005/06.
xi. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau TGCh, Adnoddau Dynol, Cyflogres a Chyfathrebu. Roedd amcangyfrif gwreiddiol 2005/06 yn cynnwys taliadau i’r Comisiwn Archwilio a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol am rai gwasanaethau a ddarperir/a brynir yn uniongyrchol. Rhagwelir arbediad sylweddol ar gyfer 2006/07, sydd, ar ôl chwyddiant, wedi dangos arbedion effeithlonrwydd.
xii. Yn cynnwys dibrisiad amcangyfrifol a ffi llog tybiannol.
xiii. Mae cyfanswm y gwariant refeniw wedi gostwng o £0.5 miliwn.
xiv. Nid yw’r amcangyfrif uchod yn cynnwys costau cyflogau a rhai cysylltiedig yr Archwiliwr Cyffredinol sy'n daladwy ar wahân gan y Cynulliad o dan Adran 91 Deddf Llywodraeth Cymru 1998.

**Sylwer bod amcangyfrifon 2006/07 yn cymryd i ystyriaeth chwyddiant a gostyngiad o 1% o wariant gros i adlewyrchu'r arbedion effeithlonrwydd targed a gyflwynir yn Creu'r Cysylltiadau.**

39. Gall fod yn bosibl rhesymoli gwaith archwilio rywfaint yn enwedig yn y sector iechyd. Fodd bynnag, bydd y posibilrwydd o wneud yr arbedion effeithlonrwydd yn gynnar ym mywyd y corff newydd yn gyfyngedig oherwydd na fydd Swyddfa Archwilio Cymru mewn sefyllfa i elwa ar yr arbedion maint a gafodd y ddau gorff rhagflaenol.

40. Bydd hefyd angen trafod gyda Llywodraeth Cynlluniad Cymru i ba raddau y mae'n briodol trosglwyddo i gyrff a archwilir ac a arolygir, drwy ffioedd, y codiadau mewn costau a gaiff y corff newydd o ganlyniad uniongyrchol i'r cyfuno a'r costau sy'n deillio o gyfraniadau pensiwn ychwanegol cyflogwyr. At bwrpas yr amcangyfrif hwn, rwyf wedi cymryd y bydd y ffioedd i gleientiaid yn y sector llywodraeth leol ond yn adlewyrchu codiadau costau a fyddai wedi digwydd er gwaethaf creu Swyddfa Archwilio Cymru. Ar y sail hon, telir codiadau costau eraill drwy grant gan y Cynulliad.

**Jeremy Colman**
**Archwiliwr Cyffredinol Cymru**
**28 Medi 2005**

Swyddfa Archwilio Cymru
2-4 Park Grove
CAERDYDD
CF24 2AQ